

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddona.**  
**A gynhaliwyd ar Nos Fercher Ionawr 16 ddeg - 2014**  
**am 7.30 o'r gloch.**

**1. Presennol** - Cyngorwyr Myrddin Roberts (Cadeirydd, MR), Geraint Parry (Clerc), Gill Cheverton (Is – Gadeirydd (GC), Lewis Davies(LD), Carwyn Jones(CJ), Alwena Roberts (AW), Maldwyn Williams (MW) a Dafydd Pritchard

**2. Ymddiheuriadau** - Derbyniwyd gan Cyng. Rhian Hughes a Alwyn Rowlands

**3. Cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 fed o Ragfyr fel rhai cywir gan Cyng. M Williams, eilio gan Cyng. A Roberts.

**4. Materion yn codi o'r Cofnodion**

- **Tir Comin** - Clerc i wahodd cynrychiolydd o Cyfoeth Naturiol Cymru i'r cyfarfod nesaf. Trafodwyd y cynllun rheoli'r tir comin. Clerc i gael mewnbwn Menter Môn ar y mater.
- **Clawdd ar Mynydd Crafoed** - MR wedi cael dyfynbris oddiwrth Marc Griffiths, lle mae cynnig torri'r clawdd ar y ffordd ger Simdde Wen i Creigle a thorri coed ar Mynydd Crafoed am £200. Nodwyd bod yn well i dorri coed tŷ cefn i dŷ Mr Shamash na defnyddio peiriant ar y tir. Penderfynwyd cytuno a'r dyfynbris.
- **Wefan i'r Cyngor Cymuned** – Clerc i anfon ymlaen y linc i'r safle.
- **Llwybr Tai Bach** – dim newyddion ymhellach.
- **Ffordd ger fferm Bryn Bela** - Clerc wedi anfon llythyr werthfawrogiad i Adran Priffyrdd y Cyngor Sir.

**5. Adroddiad gan y Cyngorwyr**

**LD/CJ** - Fynwent Eglwys St Iestyn, Clerc wedi anfon llythyr i sylw'r Prif Weithredwr y Cyngor Sir, dim wedi derbyn ymateb hyd yn hyn. Cyng. C Jones wedi cysylltu â chwmmi teledu i wneud stori cyffredinol ar gyfer mynwentydd lleol.

**LD** - Pwyllgor Cyllideb - arbed £7 miliwn blwyddyn nesaf gyda gosod y dreth am 5%. Bydd toriad o'r maint yma yn golygu gostyngiad enfawr mewn gwasanaethau a llai o grantiau lleol. Hefyd mae comisiwn Williams yn awgrymu lleihau nifer o gynghorau yn Gymru, bosib i 11 ddeg.

**LD** - Mae Rhun ap Iorwerth yn cynnal cyfarfod gyda prif swyddog o adran Gofrestru Tir ar 21/01/14. Nid i'wr Cyngor Sir yn gwneud digon i gynorthwyo pobl lleol. MR - fuasai'n syniad i gael cyfarfod cyhoeddus ar y mater yma.

**CJ** - Cwmni bysiau Padarn wedi penderfynu tynnu tocyn wythnosol yn ôl heb ddim rhybudd. Mae hyn wedi cynyddu pris tocyn bws cyffredinol ar gyfer defnyddwyr rheolaidd. Dywedodd y cwmni fod hyn wedi ei achosi trwy toriadau gan y llywodraeth ar Cyngor Lleol a fod y tocynau yn cael ei rhannu gan defnyddwyr. Wedi ysgrifennu gan ofyn iddynt ail feddwl.

**CJ** - Ysgol Llanddona, yn llywodraethwr nawr. Wedi ysgrifennu at Dr G Jones Cyngor Sir er mwyn cael gwybod be ydi'r penderfyniad gyda'r Ysgol.

**CJ** - Mae cyfarfod ar 30/01/14 am 5.30 yn Ysgol Biwmares i drafod gwasanaethau cymdeithasol yn yr ardal cael ei chymryd drosodd gan wirfoddolwyr. Gwahodd i bawb.

**6. Datgan Diddordeb**

Cyng. L Davies a C Jones ar gais 22C40A.

**7. Ceisiadau Cynllunio**

- 20C40A - cais lawn ar gyfer dymchwel yr annedd presennol a modurdy a chodi annedd a modurdy newydd, codi stablau, gosod system trin carthffosiaeth ac addasu'r fynedfa bresennol yn Cae Maes Mawr, Llanddona - Cytunwyd i wrthwynebu'r cais oherwydd, mae datblygiad dau lawr enfawr fel hyn yn dirywio'r Ardal o Harddwch Naturiol.  
Mae ardal Traeth Llanddona a'r llethrau uwchben yn frithwaith o gaeau bychain gyda bythynnod traddodiadol Cymreig yma ac acw. Mae'r ardal yn unigryw, ac mae ceisiadau cynllunio fel hyn yn prysur ddirywio'r patrwm. Rydym angen trafod yn bellach gyda Swyddogion Cynllunio'r Ynys beth allwn wneud i atal y math yma o ddirywio. Nid yw'r cynllun a gyflwynwyd yn dangos y llwybrau cyhoeddus sy'n agos i'r safle hwn. Hefyd, byddem yn hoffi gwneud ymweliad ar safle.

### **Er Gwybodaeth**

- 22C40B/SCR - Barn sgrinio ar gyfer codi annedd yn Cae Maes Mawr - **ni fydd** y datblygiad yn cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd ac nid oes angen asesiad. Nid oedd y Cyngor Cymuned wedi derbyn y cais yma.

### **8. Tir Comin**

Cyngor Cymuned wedi derbyn llythyr oddiwrth Swyddfa Gofrestru tir ynghlyn a thir Maes Chwarae Plant, CYM526084, lle mae Stephen Hayes yn gwrthwynebu ein cais trwy gyflwyno dogfennau i gefnogi ei wrthwynebiad. Clerc wedi lawr lwyddo'r dogfennau. Mae angen benderfynu os ydym yn mynd i barhau gyda'r cais erbyn 3/02/14.

Cynnig gan MW i barhau gyda'r cais, eiliwyd gan AW, pawb yn gytûn.

### **9. Cyfrifon** - cytunwyd i dalu:-

- Hurio Ystafell Ysgol, Ionawr - £20
- Geraint Parry, cyflog Hydref – Rhagfyr - £429.

#### **Incwm**

- 3ydd Praesept - £1,716.66

### **10. Gohebiaeth**

Llythyr - Hyfforddiant Un Llais

Apêl - Marie Curie

Apêl - Cerdded yr arfordir

Llythyr – cyfarfod cyhoeddus Dim Peilonau yn Llanfairpwll

Llythyr – Canolfan Hamdden, taith feicio hwyl 11/05/14

e-bost – Rhian Hughes, olew gwres canolog wedi ei ddwyn

Llythyr – Un Llais, cyfarfod cylch Ynys Môn, 29/01/14 am 7 o'r gloch, Shire Hall, Llangefni.

Llythyr – Un Llais, gwahoddiad i barti Gardd Palas Buckingham

### **11. UFA:**

- Cyfarfod cyllideb 2014/15 yn siambr y Cyngor Sir, am 7 o'r gloch ar 23/01/14.
- GC yn gofyn - pwy sydd yn gyfrifol i glirio fyny'r difrod i'r traeth dilyn y storm? Clerc i ysgrifennu i'r Cyngor Sir.
- DP - dilyn glaw trwm, mae llawer o ddŵr yn rhedeg lawr y ffordd Tre Gof i Pant Owen. Wedi sylwi fod y draen wedi ei blocio ar adegau. Mae'r sefyllfa yn beryglus iawn pan mae hi wedi rhewi.
- Llythyr o ddiolch am y rhodd oddiwrth Canolfan Hamdden Biwmares.
- Estyniad i faes parcio Bonc y Felin - mae problem enfawr gyda pharcio yno ers i'r tŷ pen creu mynedfa. Mae llai o le i bobl eraill parcio.
- Seddi gwag - pawb i drïo llenwi.
- Ras yr Ynys, hanner marathon 2/03/14. Bwriad gau ffordd dros dro o Borthaethwy i Fiwmares, rhwng 8.30 a 12.30.
- Clerc yn rhannu gwybodaeth hyfforddiant i Cynghorwyr oddiwrth Un Llais.
- Cyngor Sir yn lleihau neu newid y nifer o wasanaethau bws o fis Ebrill. Effeithio dau wasanaeth dydd Sul yn yr ardal hon.

### **12. Dyddiad cyfarfod nesaf:**

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ei gyfraniad.

Daeth y cyfarfod i derfyn am 9.40 o'r gloch.

Penderfynwyd Cyfarfod nesaf 19/02/14 am 7.30.

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad